
 **Ombwdsmon**  
**Ombudsman**

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU  
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Coflyfr ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol 2022/23

---


Tachwedd 2022



Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddarllen. I wneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203  
Ebost: [cyfathrebu@ombwdsmon.cymru](mailto:cyfathrebu@ombwdsmon.cymru)



OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU  
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

## **Coflyfr ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol 2022/23**



# Cynnwys

- 6 **Rhagair**
- 8 **Cefndir**
- 9 Amdanom ni
- 10 Fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol
- 12 Geirfa
- 13 **Yr achosion**
- 14 Achosion ynglŷn â DNACPR
- 20 Adroddiadau eraill nad ydynt er budd y cyhoedd
- 29 Adroddiadau er budd y cyhoedd
- 35 Datrysiad Cynnar
- 38 **Atodiad: Rhai erthyglau'r ECHR**

## Rhagair

Dyma ein pedwerydd Coflyfr ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae llawer wedi newid ers i ni lansio'r cyhoeddiad hwn gyntaf yn 2020, gyda'r pandemig COVID-19 yn tarfu'n ddifrifol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn y DU ac o gwmpas y byd. Fodd bynnag, nid yw ein hymagwedd at faterion cydraddoldeb a hawliau dynol a welwn yn ein gwaith achos wedi newid.

Rydym bob amser wedi bod yn glir nad ein rôl yw dod i'r casgliad bod hawliau dynol rhywun wedi'u torri, neu eu bod wedi dioddef gwahaniaethu. Mater i'r llysoedd yw hynny. Fodd bynnag, gwelwn yn ein gwaith achos bob dydd fod materion hawliau dynol a chydraddoldeb yn aml yn anwahanadwy oddi wrth bobl yn cael eu trin yn annheg ac yn dioddef anghyfiawnder.

Felly, os gwelwn fod hawliau dynol neu hawliau cydraddoldeb rhywun wedi'u hymgysylltu yn yr achosion a ystyriwn, byddwn yn datgan hynny'n glir yn ein casgliadau ac yn gwneud argymhellion priodol.

Yn 2021/22, gwnaethom ystyried materion hawliau dynol a chydraddoldeb mewn 59 achos o'r fath. Gobeithiwn y bydd y detholiad a gyflwynir yn y coflyfr hwn yn helpu i barhau i godi ymwybyddiaeth o'n hymagwedd at faterion hawliau dynol a chydraddoldeb yn ein gwaith achos.

Roedd llawer o'r achosion a ystyriom yn 2021/22 yn ymwneud â digwyddiadau a fu yn ystod pandemig COVID-19 ac yn ystod y mesurau a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae sawl achos yn y coflyfr hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â materion o'r fath. Gan barhau â'r thema a gyflwynwyd yn ein Coflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol blaenorol, cyflwynwn yma 3 achos sy'n ymwneud â chymhwyso'r weithdrefn 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)'. Cynhwyswn hefyd un achos sy'n ymwneud â'r rheolau ynghylch eithriadau gorchuddion wyneb.



Yn ogystal, cynhwyswn sawl achos lle penderfynom y gallai dyletswyddau cydraddoldeb darparwyr gwasanaethau cyhoeddus fod wedi'u hymgysylltu. Mae'r detholiad yn y coflyfr hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar faterion yn ymwneud â chynnig addasiadau rhesymol i bobl anabl.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion sydd wedi'u cynnwys yn y coflyfr hwn, rydym wedi cadarnhau'r elfennau o'r gŵyn sy'n ymwneud â materion hawliau dynol neu gydraddoldeb. Wedi dweud hynny, cynhwyswn hefyd nifer o gwynion na wnaethom eu cadarnhau. Credwn fod hyn yn bwysig i esbonio yn ein hymagwedd at achosion o'r fath yn well, ynghyd â thynnu sylw at arfer gweinyddol cywir gan y cyrff yr ymchwiliwyd iddyn nhw.

Ein cwynion am wasanaethau cyhoeddus yw canolbwynt y cyhoeddiad hwn. Fodd bynnag, hoffwn achub ar y cyfle hwn i bwysleisio ein bod hefyd yn ymgorffori sylw i ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein gwaith arall.

Y llynedd, cyhoeddom ein hadroddiad ar ein liwt ein hunain cyntaf, 'Adolygiad Digartrefedd', a gododd faterion hawliau dynol a chydraddoldeb pwysig. Mae'r awdurdodau lleol y buom yn ymchwilio iddyn nhw - Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam - wedi gweithio'n galed i wella gwasanaethau i gydymffurfio â'n hargymhellion. Roedd hynny'n cynnwys camau gweithredu i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol i staff digartrefedd a gwneud eu gwasanaethau digartrefedd yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn parhau i weithio â'r 19

awdurdod na wnaethom ymchwilio iddyn nhw, gan fonitro cynnydd a gwelliant ledled Cymru i sicrhau gwasanaethau gwell i'r sawl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Yn ogystal, pan fyddwn yn ymdrin â chwynion am achosion posibl o dorri'r Cod Ymddygiad, edrychwn hefyd ar faterion cydraddoldeb. O dan y Cod, rhaid i gynghorwyr barchu cyfle cyfartal i bawb. Yn ystod 2021/22, ymchwiliom rai achosion lle torrwyd y rhan honno o'r Cod. Er enghraifft, mewn un achos o'r fath, torrodd y cynghorydd y Cod drwy wneud sylwadau am nam ar glyw aelod arall a'i gwneud yn anodd yn fwriadol i'r aelod hwnnw gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Gwyddom fod trafodaeth barhaus ar lefel y DU am ddyfodol Deddf Hawliau Dynol 1998. Beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau hynny, rydym yn glir y byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol a hawliau cydraddoldeb y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**Michelle Morris**  
Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus Cymru

Tachwedd 2022

# Cefndir

---





## Amdanom ni

Rydym yn gwasanaethu pobl Cymru mewn 3 ffordd wahanol.

Ein rôl gyntaf yw ymdrin â chwynion am gamweinyddu, methiant gwasanaeth, neu fethiant i ddarparu gwasanaeth gan y mwyafrif o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, megis:



Llywodraeth  
Leol



Y GIG  
(gan gynnwys  
meddygon teulu  
a deintyddion)



Landlordiaid  
Cymdeithasol  
Cofrestredig



Llywodraeth Cymru  
a'i chyrff nodedig

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am gyrff cyhoeddus yng Nghymru [ar ein gwefan](#) (hefyd mewn fersiwn [Hawdd ei Ddarllen](#)).

Ein hail rôl yw ystyried cwynion bod aelodau etholedig o awdurdodau lleol wedi torri eu Cod Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus. Yn y rôl hon, gallwn ystyried cwynion am:



Cynghorau Sir  
a Chynghorau  
Bwrdeistref Sirol



Cynghorau  
Cymuned



Awdurdodau Tân



Awdurdodau  
Parciau  
Cenedlaethol

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am ymddygiad aelod o awdurdod lleol [ar ein gwefan](#) (hefyd mewn [fersiwn Hawdd ei Ddarllen](#)).

Ein trydedd rôl yw ysgogi gwelliannau systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn draddodiadol, rydym wedi gwneud hyn yn bennaf trwy gyhoeddi ein canfyddiadau, er enghraifft mewn adroddiadau diddordeb cyhoeddus ac adroddiadau thematig, llythyrau blynyddol at gyrff yn ein hawdurdodaeth a choflyfrau. Fodd bynnag, yn 2019 cawsom bwerau newydd i ysgogi gwelliannau systematig. Bellach, gallwn ymgymryd ag ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed pan nad ydym wedi derbyn cwyn. Gallwn hefyd osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a monitro eu perfformiad wrth ymdrin â chwynion.

# Fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion a'r dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol y DU a fframweithiau rhyngwladol. Wrth edrych ar ein cwynion, ystyriwn y canlynol:

- y dyletswyddau cydraddoldeb o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010
- Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) fel y maent wedi'u hymgorffori yn y gyfraith gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA)
- Egwyddorion Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth – gwerthoedd hanfodol sy'n sail i hawliau dynol.

## Dyletswyddau cydraddoldeb

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno **dyletswydd cydraddoldeb sector gyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'), a oedd yn disodli'r dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chdraddoldeb rhywiol.

O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen am:

- gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- symud cydraddoldeb cyfle ymlaen rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai hynny nad ydyn nhw'n rhannu nodwedd warchodedig
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydyn nhw'n rhannu nodwedd warchodedig.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oed
- anabledd
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd
- hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- crefydd neu gred (yn cynnwys diffyg cred)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu).

Yn ogystal, mae gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru **ddyletswyddau penodol** i'w helpu wrth berfformio'r ddyletswydd gyffredinol.

O dan y Ddeddf Gydraddoldeb, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi **addasiadau rhesymol** i bobl anabl.

Mae'r achosion sydd wedi'u cynnwys yn y coflyfr hwn yn ymwneud yn bennaf â **nodwedd warchoddedig anabledd a darparu addasiadau rhesymol**.

Mae darparu addasiadau rhesymol yn golygu bod rhaid i sefydliadau gymryd camau cadarnhaol i gael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu hanabledd.



## Hawliau dynol

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a'r rhyddid sydd wedi'u nodi yn y ECHR yng nghyfraith ddomestig y DU.

Mae rhai yn hawliau **diamod**, sy'n golygu y dylai'r dinesydd fod yn rhydd i'w mwynhau, ac ni all y wladwriaeth byth ymyrryd â nhw. Mae rhai yn hawliau **cyfyngedig**, sy'n golygu y gellir ymyrryd

â nhw mewn rhai amgylchiadau (fel yn ystod rhyfel neu argyfwng). Yn olaf, mae eraill yn hawliau **amodol**, sy'n golygu y gall y wladwriaeth ymyrryd yn gyfreithiol â nhw mewn rhai sefyllfaoedd - er enghraifft, i amddiffyn hawliau dinasyddion eraill.


Yr hawliau mwyaf cyffredin yn y cwynion a ystyriwyd gan ein swyddfa yw'r canlynol:



Erthygl 2 - Yr hawl i fywyd



Erthygl 8 - Yr hawl i gael parch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth



Erthygl 3 - Yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol



Erthygl 9 - Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd



Erthygl 5 - Yr hawl i ryddid a diogelwch



Erthygl 10 - Yr hawl i ryddid mynegiant



Erthygl 6 - Yr hawl i gael gwrandawriad teg



Erthygl 14 - Gwahardd gwahaniaethu

Mae'r achosion a gynhwysir yn y coflyfr hwn yn ymwneud yn bennaf ag **Erthyglau 2, 8 a 14**. Cynhwyswn fwy o fanylion am gwmpas yr erthyglau hyn **yn yr Atodiad**.

## Geirfa

Pan fyddwn yn ystyried cwyn ac yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus, gallwn ymyrryd yn ystod y cam asesu neu'r cam ymchwilio.

Pan fyddwn yn ymyrryd yn y cam asesu, galwn hynny'n **Ddatrysiad Cynnar**. Mae hyn yn golygu y gallwn wneud argymhellion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gyflymach, heb gynnal ymchwiliad llawn.

Os bydd angen i ni gynnal ymchwiliad llawn a'n bod yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le, byddwn fel arfer yn paratoi adroddiad neu lythyr penderfyniad sy'n esbonio ein canfyddiadau. Weithiau, byddwn yn penderfynu cyhoeddi **adroddiad 'budd y cyhoedd'**. Gwnawn hyn er enghraifft pan:

- mae gwersi ehangach o'n hymchwiliad i gyrff eraill
- roedd yr hyn a aeth o'i le yn arwyddocaol iawn
- efallai bod y broblem a ganfuom yn effeithio ar lawer o bobl, nid dim ond y sawl a gwynodd i ni, neu
- roeddem wedi tynnu sylw'r corff at y broblem yn y gorffennol, ond ni roddodd y corff sylw iddi.

Fel arall, byddwn fel arfer yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwiliad fel **adroddiad 'nad yw er budd y cyhoedd'**.

## Yr achosion

---

Yn yr adran hon, cyflwynwn rai o'r achosion perthnasol a gaeom yn ystod 2021/22. Ar gyfer y coflyfr hwn, rydym wedi symleiddio ac addasu crynodebau achosion i'w gwneud yn fwy hygyrch ac i egluro goblygiadau cydraddoldeb neu hawliau dynol y gŵyn yn well. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i grynodedau ffurfiol o'r achosion hyn ar ein gwefan **yma**.



## Achosion ynglŷn â Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR)

Mae penderfyniad Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) yn golygu os bydd eich calon neu eich anadlu yn stopio, ni fydd y tîm gofal iechyd yn ceisio eu hailgychwyn. Dylai'r penderfyniad bwysu a mesur manteision posibl dadebru gyda'r risg o niwed i'r claf unigol. Yn ystod y pandemig COVID-19, gosododd Llywodraeth Cymru a'r GIG gyfyngiadau ar ymweliadau ag ysbytai gan deuluoedd cleifion ac ar drefniadau angladd a chynulladau cymdeithasol. Gwnaethant hefyd ddiwygio'r polisi DNACPR a'r canllawiau ar gwblhau tystysgrifau marwolaeth. Daeth y mwyafrif o'r darpariaethau dros dro hyn i ben ym mis Mawrth 2022.



### 202006132

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Cwynodd Mrs A am y gofal a'r driniaeth a gafodd ei diweddar ŵr, Mr A, ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ym mis Ebrill 2020. Derbyniwyd Mr A, a oedd yn 81 a chydag sawl cyflwr iechyd a oedd yn bodoli eisoes, gydag anhawster anadlu a diffyg anadl sydyn.

Cwynodd Mrs A na cheisiodd y Bwrdd Iechyd ganiatâd hyddysg (gan Mr A na hithau) cyn iddo roi ffurflen DNACPR ar waith. Dywedodd hefyd na roddwyd lefelau cywir o ocsigen atodol i Mr A i'w helpu i anadlu.

Yn ogystal, cwynodd Mrs A fod y Bwrdd Iechyd wedi ardystio'n anghywir bod achos y farwolaeth yn cynnwys niwmonia COVID-19, er bod Mr A wedi profi'n negyddol. Dadleuodd Mrs A, gan fod y Bwrdd Iechyd wedi datgan bod gan ei gŵr COVID-19, na chawsai ganiatâd i fod gydag ef pan fu farw na gweld ei gorff yn y capel gorffwys.

Yn olaf, dywedodd Mrs A nad oedd trefnwyr angladdau yn gallu paratoi'r corff ac felly ni chafodd Mr A yr angladd yr oedd yn ei haeddu. Dywedwyd wrthi yn ddiweddarach eu bod wedi cael gwared â'i eiddo'r diwrnod y bu farw oherwydd y risg o haint ac na chawsant eu dychwelyd i'r teulu.

## Yr hyn a ganfuom

Ni wnaethom gadarnhau rhai agweddau ar gŵyn Mrs A. Er enghraifft, ni welsom dystiolaeth fod y penderfyniadau clinigol a wnaed yn ystod gofal Mr A yn amhriodol. Roeddem hefyd yn glir mai penderfyniadau clinigol yw penderfyniad DNACPR, ac na fyddai barn Mr A a'i deulu yn pennu sut y cafodd ei ddeddfu.

Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ynghylch sut cyfathrebodd y staff meddygol â Mr a Mrs A a sut gwnaethant ddogfennu eu penderfyniadau. Oherwydd y cyfathrebu gwael a chofnod gwael y penderfyniadau wrth roi'r weithdrefn DNACPR ar waith, roedd marwolaeth Mr A yn fwy trallodus i'w deulu.

Yn ychwanegol, oherwydd y cyfathrebu gwael, nid oedd Mrs A yn ymwybodol o raddau dirywiad Mr A ac nid oedd wedi disgwyl mai ei hymweliad oedd y tro olaf y byddai'n debygol o weld ei gŵr. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd Gyfleu'n glir beth fyddai'n digwydd i eiddo Mr A, a oedd wedi cyfrannu ymhellach at drallod Mrs A.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Oherwydd tystiolaeth groes a'r trefniadau gwael wrth gadw cofnodion ynghylch y penderfyniad DNACPR, ni allem fod yn siŵr a oedd Mr A a'i deulu yn gwybod bod gweithdrefn DNACPR wedi'i rhoi ar waith neu a oeddent wedi bod yn rhan o'r broses benderfynu.

Pe bai'r cyfathrebu a'r trefniadau cadw cofnodion yn well, byddai'r teulu wedi cael sicrwydd yr oedd ei fawr ei angen arnyn nhw bod y clinigwyr wedi ystyried dymuniadau Mr A. Yn ein barn ni, roedd y sefyllfa yn ymgysylltu ag **Erthygl 8** o'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn gallu mynegi eu dymuniadau ynghylch pa ofal a thriniaeth y maen nhw am eu cael.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawndal i Mrs A, cytunodd y Bwrdd Iechyd i rannu ein hadroddiad â'r staff perthnasol, i sicrhau na fyddai'r methiannau cyfathrebu a chadw cofnodion a nodom yn cael eu hailadrodd.

**202004779**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
a Meddygfa Meddyg Teulu a reolir gan y Bwrdd Iechyd  
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Cwynodd Mrs B am y dos o feddyginiaeth boen a ragnododd y Feddygfa Meddyg Teulu i'w diweddar thad, Mr C, ac am sut y cafodd y feddyginiaeth hon ei rheoli. Cwynodd Mrs B hefyd am y rheolaeth a'r gofal a gafodd Mr C pan dderbyniwyd i'r ysbyty ag amheuaeth o rwystr yn y coluddyn ("SBO"). Yn ogystal, dywedodd na chyfathrebodd y Bwrdd Iechyd yn ddigon da â hi ac na ddeliodd â'i chwyn fel y dylai fod wedi.

## Yr hyn a ganfuom

Ni wnaethom gadarnhau'r rhannau o gŵyn Mrs B yn ymwneud â'r Feddygfa Meddyg Teulu.

Fodd bynnag, canfuom y bu methiannau clinigol a effeithiodd ar reolaeth a gofal Mr C yn yr ysbyty. Er bod sgan arbenigol wedi dangos bod gan Mr C SBO, ni adnabu'r clinigwr a oedd yn ei drin y cyflwr. Gwaethygodd cyflwr Mr C yn fuan ar ôl y sganiad a dioddefodd ataliad y galon. Cafodd 2 gylch o ddadebru cardio-anadlol ("CPR"). Pan gysylltodd y Bwrdd Iechyd â Mrs B, dywedodd na fyddai Mr C am gael ei ddadebru, ond roedd yn dadlau na ddylid "rhoi'r gorau iddo" (fel y nodwyd yn y cofnodion clinigol). Rhoddodd y staff clinigol y gorau i CPR ar ôl 12 munud a bu farw Mr C.

Canfuom fethiannau cyfathrebu clinigol ynghyd â methiannau yn y broses DNACPR. Dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi gofyn i Mr C am y weithdrefn DNACPR pan gafodd ei dderbyn. Gan na ddigwyddodd hynny, bu'n rhaid iddo gysylltu â Mrs B pan roedd Mr C yn derbyn CPR. Canfuom hefyd na chyflawnwyd CPR am yr amser a nodir yn y canllawiau swyddogol ac na wnaed y penderfyniad i roi gorau drwy ystyriaethau clinigol. Ar y cyfan, penderfynom fod y methiannau clinigol o ran rheolaeth a gofal Mr C yn gyfystyr ag anghyfiawnder i'w deulu, sy'n gorfod byw a'r ansicrwydd y gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol.

Canfuom hefyd nad oedd y ffordd y deliodd y Bwrdd Iechyd â chwyn Mrs B mor effeithiol na chadarn ag y dylai fod. Golygodd hyn y bu'n rhaid i Mrs B a'r teulu barhau i ail-fyw'r digwyddiadau trallodus ynghylch marwolaeth Mr C i gael atebion.





## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Roedd hawl gan Mr C i roi ei farn ynghylch a ddylid ceisio CPR. Trwy fethu â gofyn am ei farn pryd y gallai fod wedi'i mynegi, rhoddodd y Bwrdd Iechyd Faich Annheg ar Mrs B. Mae hyn, a'r modd y bu farw Mr C, yn dal i aflonyddu'r teulu.

Roedd y methiannau cyfathrebu hefyd wedi ychwanegu at y trallod parhaus a sylweddol. Am y rhesymau hynny, deuthum i'r casgliad bod hawliau dynol Mr C a'r teulu (yn benodol, **Erthygl 8**) yn berthnasol yn yr achos hwn.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawn ariannol i Mrs B am y methiannau o ran ymdrin â chwynion, argymhellom fod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â Mrs B, ar ran y teulu, i'w helpu i gael iawndal ariannol.

**202101577**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Cwynodd Mrs D am y gofal a'r driniaeth a gafodd ei diweddar ŵr (Mr D), yn ystod ei dderbyniad i'r ysbyty. Dywedodd Mrs D fod ffurflen DNACPR wedi'i gosod yn amhriodol ar gofnodion ei gŵr yn groes i'w dymuniadau a heb ei chaniatâd.

Cwynodd hefyd fod y penderfyniad i roi'r gorau i driniaeth actif a symud i ofal diwedd oes ar ôl 3 diwrnod o dderbyniad yn amhriodol ac yn gynamserol.

Dywedodd y rhoddwyd morffin yn fwriadol i Mr D i'w orddosio a chyflymu ei farwolaeth. Dywedodd Mrs D hefyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried ei barn ar y penderfyniadau hyn yn ddigonol.

Yn olaf, cwynodd Mrs D na chafodd Mr D ei ryddhau o'r ysbyty er mwyn rhoi'r cyfle iddo farw'n heddychlon yn ei gartref gofal. Dywedodd na chysylltodd Tîm Profedigaeth y Bwrdd Iechyd â hi am rai misoedd ar ôl marwolaeth Mr D.

## Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y penderfyniad am y DNACPR yn gywir. Canfuom hefyd fod y penderfyniad i newid i ofal diwedd oes yn rhesymol, gan fod cyflwr Mr D wedi gwaethgu er iddo dderbyn triniaeth briodol.

Roedd y meddyginiaethau a ragnodwyd, gan gynnwys y morffin, yn briodol a chyfathrebodd y Bwrdd Iechyd â Mrs D fel y dylai fod wedi gwneud.

Canfuom hefyd na fyddai wedi bod yn bosibl i Mr D gael ei ryddhau yn ôl i'w gartref gofal oherwydd pa mor gyflym yr oedd wedi dirywio a chyd-destun y pandemig COVID-19. O ganlyniad, ni wnaethom gadarnhau'r cwynion hyn.

Fodd bynnag, gwnaethom gadarnhau cŵyn Mrs D yn ymwneud â'r Tîm Profedigaeth. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y dylai'r gwasanaeth cefnogi profedigaeth a sefydlwyd yn ystod y pandemig fod wedi cysylltu â Mrs D yn llawer cynharach.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Dywedodd Mrs D fod y Bwrdd Iechyd wedi anwybyddu hawl Mr D i fywyd (**Erthygl 2**), oherwydd iddo benderfynu rhoi'r gorau i driniaeth actif ac, yn ei barn hi, rhoddodd orddos bwriadol o forffin. Fodd bynnag, mae Erthygl 2 yn gosod rhwymedigaeth ar y Bwrdd Iechyd i ddarparu triniaeth sy'n achub bywyd ac eithrio o dan amgylchiadau penodol, megis pan fo triniaeth yn cael ei hystyried yn ofer, neu ei bod er lles gorau'r claf i beidio â'i darparu. Roedd y penderfyniad i roi'r gorau i driniaeth actif yn rhesymol ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod morffin wedi'i ragnodi i gyflymu marwolaeth Mr D.

## Yr hyn a argymhellom

Esboniodd y Bwrdd Iechyd na allai'r gwasanaeth cefnogi profedigaeth fodloni ei amserlen arferol o gysylltu ag aelodau'r teulu oherwydd problemau staffio. Rhoddodd wybodaeth i ni am gyfran yr achosion lle'r oedd bellach yn bodloni'r amserlenni perthnasol. Gan fod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymddiheuro i Mrs D ac wedi esbonio'r rhesymau dros yr oedi, ni argymhellom gamau pellach.

# Adroddiadau eraill nad ydynt er budd y cyhoedd

202003442

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg  
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Cwynodd Mr A na roddodd y Bwrdd Iechyd ofal a thriniaeth briodol i'w diweddar dad, Mr B, ar ôl iddo ddioddef strôc yn ei gartref a chael ei dderbyn i'r Uned Strôc. Roedd Mr B yn dioddef o ddementia difrifol a bu farw yn yr ysbyty sawl diwrnod ar ôl ei dderbyn.

## Yr hyn a ganfuom

Canfuom na ddefnyddiodd y Bwrdd Iechyd, ar ôl derbyn Mr B, y wybodaeth gan ei deulu am ei anghenion. Ni chwblhaodd brofion cadarn i wirio ei alluoedd meddyliol. Byddai hyn wedi helpu staff y Bwrdd Iechyd i adnabod anghenion Mr B o ran ei ddementia a gwneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer.

Cwympodd Mr B yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, a chanfuom na oruchwyliodd staff y Bwrdd Iechyd ef fel y dylent cyn ei gwmp. Canfuom hefyd na lenwodd y Bwrdd Iechyd arsylwadau Mr B fel sy'n ofynnol ar y diwrnod y bu farw.

Canfuom fod methiannau'r Bwrdd Iechyd wedi effeithio ar urddas a diogelwch Mr B. Gwnaethant hefyd achosi gofid i Mr A oherwydd yr ansicrwydd ynghylch a ellid bod wedi osgoi cwmp Mr B neu atal ei farwolaeth.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Daethom i'r casgliad na roddodd y Bwrdd Iechyd sylw dyledus i amddiffyniad Mr B, fel person sy'n byw gyda dementia, fel sy'n ofynnol o dan y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Roedd hyn yn anghyfiawnder iddo.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawndal ariannol i Mr A am y gofid a'r ansicrwydd, argymhellom y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a thrafod gofal Mr B â'r staff clinigol perthnasol. Argymhellom hefyd y dylai ddarparu hyfforddiant sy'n ymwneud â chydraddoldeb ar gyfer gofalu am gleifion â nam gwybyddol.

202000712

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Cwynodd Mr D am y gofal â'r driniaeth a gafodd ei ddiweddar fam, Mrs C, gan y Bwrdd Iechyd yn ystod ei 3 derbyniad i'r ysbyty dros 3 mis. Dywedodd Mr D na roddodd y Bwrdd Iechyd ofal nyrsio briodol i Mrs C yn ystod ei thrydydd derbyniad ac na roddodd wybod ar unwaith i'w theulu am ei diagnosis o ganser terfynol.

## Yr hyn a ganfuom

Canfuom na chafodd gynlluniau gofal nyrsio craidd Mrs C eu haddasu i ddiwallu anghenion unigol Mrs C o ran hylendid personol, lleddfu pwysau a hydradu. Oherwydd hynny, ni ddiwallodd y Bwrdd Iechyd anghenion gofal Mrs C yn llawn ac nid oedd ei ymyriadau nyrsio bob amser yn briodol. Daethom i'r penderfyniad fod hyn wedi effeithio ar gysur ac urddas Mrs C.

Canfuom hefyd fod staff meddygol y Bwrdd Iechyd yn anghywir i ohirio cynllunio gofal diwedd oes Mrs C ac i beidio â dweud wrth ei theulu am ddiagnosis Mrs C, nes ei bod yn ystod ychydig ddyddiau olaf ei bywyd. Pe na bai'r oedi hwnnw wedi digwydd, byddai wedi bod yn bosibl i'r Bwrdd Iechyd roi'r cymorth cywir ar waith i Mrs C a'i theulu pan oedd ei angen arnyn nhw.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Dywedodd Mr D wrthym ni ei fod yn teimlo bod yr amser y byddai wedi'i rannu â'i fam pe bai wedi deall ei diagnosis a'i oblygiadau ynghynt wedi cael eu lladrata oddi arno. Daeth Mrs C hefyd yn rhy sâl i fynegi ei dymuniadau ynghylch ble yr hoffai gael gofal a ble yr hoffai farw. Dylai Mrs C a'i theulu fod wedi cael yr amser i ddod i delerau â'i phrognosis ac i baratoi ar gyfer ei marwolaeth gyda chymorth gofal diwedd oes. Penderfynom fod hyn yn anghyfiawnder sylweddol i Mrs C a'i theulu galarus a'i fod yn ymgysylltu â **hawliau dynol** Mrs C fel unigolyn a **hawliau ei theulu** fel rhan o fywyd teuluol ehangach.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawndal ariannol i Mr D a'i deulu ehangach am y gofid a achosodd, argymhellom fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu canfyddiadau ein hymchwiliad â staff perthnasol ar gyfer dysgu myfyriol.

**201907544**

Cyngor Sir Powys

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



**Gwasanaethau  
Cymdeithasol**

Cwynodd Mr a Mrs A ar ran eu mab, B, fod y Cyngor wedi methu â diogelu a hybu ei les fel plentyn sy'n derbyn gofal ("LAC"). Roeddent hefyd yn anhapus ynghylch sut yr ymdriniodd y Cyngor â'u cwyn.

Mae plentyn sy'n derbyn gofal ("LAC") yn blentyn sydd yng ngofal ei awdurdod lleol.



## Yr hyn a ganfuom

Canfuom na ddilynodd y Cyngor y broses weinyddol gywir pan oedd yn rheoli ariannu darpariaeth addysgol arbennig B.

Canfuom hefyd fod penderfyniad y Cyngor i reoli B o dan y gweithdrefnau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn seiliedig ar ddehongliad anghywir o'r diffiniad o "derbyn gofal".

Roedd y Cyngor hefyd wedi cymryd yn ganiataol bod Mr a Mrs A wedi cydsynio i B dderbyn gofal heb egluro eu hawliau rhiant yn briodol iddyn nhw.

Yn olaf, nododd adroddiad ymchwiliad y Cyngor ei hun sut y methodd y Cyngor roi gwybod i Mr a Mrs A am y trefniadau ar gyfer B, gan gynnwys eu hysbysu fel mater o flaenoriaeth pan oedd B wedi'i dderbyn i'r ysbyty yn dilyn ymgais i gyflawni hunanladdiad.

Achosodd y diffyg tryloywder hwn a'r methiannau gweinyddol i'r berthynas rhwng Mr a Mrs A a'r Cyngor chwalu heb fod eisiau. Canfuom hefyd nifer o fethiannau ynghylch sut yr ymdriniodd y Cyngor â chwyn Mr a Mrs A.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Roedd y diffyg tryloywder a methiannau gweinyddol yn ymgysylltu â hawliau dynol Mr a Mrs A o dan **Erthygl 6** ac **Erthygl 8**.

Nid oedd y Cyngor wedi asesu anghenion B ac felly ni allai ddangos ei fod wedi ystyried goblygiadau hawliau dynol y trefniadau a wnaeth ar ei gyfer. At hynny, ni chydabu'r Cyngor bryderon B pan ddaeth rhieni B â nhw i'w sylw. Yn hyn o beth, ni roddodd y cyfle iddo gymryd rhan ystyrlon yn y broses gwyno.

Trwy fethu â hysbysu Mr a Mrs A yn briodol am y trefniadau ar gyfer B, ni weithredodd y Cyngor yn deg ac yn unol â'r dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol o ddarparu gofal cymdeithasol plant.

## Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom nifer o argymhellion, gan gynnwys dysgu sefydliadol, hyfforddi staff ac adolygu prosesau, mewn perthynas â chadw cofnodion, ymdrin â chwynion ac ystyriaethau sy'n seiliedig ar hawliau dynol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

## 202005028 and 202104393

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
a Chyngor Sir y Fflint

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



Mae Gofal Iechyd Parhaus (CHC) yn becyn gofal i oedolion a chaiff ei drefnu a'i ariannu gan y GIG yn unig. Penderfynir pwy sy'n gymwys ar gyfer y pecyn hwn trwy asesiad.



Cwynodd Mr C na ddywedodd y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wrtho mewn modd amserol am anghydfod o fewn y Bwrdd Iechyd ynghylch ariannu Gofal Iechyd Parhaus (CHC), yr oedd yn disgwyl iddo dalu cost ffioedd cartref gofal ei wraig, Mrs C.

Roedd Mr C hefyd yn anhapus â rôl y Cyngor yng nghynlluniau rhyddhau ei wraig o'r ysbyty ac ariannu ei gofal yn y cartref gofal.

Yn olaf, roedd Mr C yn anhapus ynghylch sut yr oedd y ddau gorff wedi ymdrin â'i gŵyn ac wedi ymateb iddi.

### Yr hyn a ganfuom

Gwnaethom gadarnhau cwynion Mr C. Canfuom fod methiannau yn y prosesau gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wedi cyfrannu at ddyled gofal cymdeithasol Mrs C o bron i £20,000 nad oedd wedi ei thalu.

O ran cynllunio ac ariannu ar gyfer rhyddhau Mrs C, dylai'r Cyngor fod wedi sicrhau ei fod wedi rhoi gwybod i Mr C am oblygiadau ariannol costau gofal cymdeithasol y codir tâl amdany'n nhw. Dylai hefyd fod wedi trafod gyda Mr C, cyn i Mrs C gael ei rhyddhau, yr angen i gwblhau asesiad ariannol a fyddai wedi ei helpu i leihau'r gost.





## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Effeithiodd y straen parhaus yn sylweddol ar Mr C. Gwaethygyd yr effaith gan yr ansicrwydd ynghylch trefniadau byw Mrs C a bygythiadau yn y gorffennol o gael ei throi allan o'i chartref gofal.

Roedd ansawdd yr amser a dreuliodd Mr C yn gofalu am ei wraig a'i chefnogi wedi'i gyfaddawdu gan ddelio ag anferthedd y ddyled gronedig.

O ganlyniad, canfuom fod hawl **Erthygl 8** Mr a Mrs C i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth, yn berthnasol ar lefel sylfaenol.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad a thaliad iawndal i Mr C i gydnabod y gofid a'r anghyfleustra a achoswyd iddo, aeth ein hargymhellion hefyd i'r afael â'r ffioedd cartref gofal yr aeth Mrs C iddyn nhw, gydag effaith net nad oes unrhyw ffioedd heb eu talu ar gyfer y cyfnod perthnasol.

**202003764**

Gyngor Gwynedd

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



**Tai**

Cwynodd Ms A am sut y rheolodd y cyngor ei chais am dŷ ac am ei benderfyniad i gynnig 2 eiddo anaddas iddi er iddo fod yn ymwybodol o afiechyd ei phartner (Mr B).

Cwynodd Ms A hefyd fod Polisi Dyrannu newydd y Cyngor (fframwaith lle blaenoriaethir y bobl sydd fwyaf mewn angen o dŷ) yn wahaniaethol. Roedd hyn oherwydd bod un o'r rhesymau pam y gallai pobl gael eu blaenoriaethu - cysylltiad lleol - yn seiliedig ar berthynas rhiant, sibling neu blentyn ac nid mathau eraill o uned deuluol. Dywedodd Ms A fod hyn yn golygu na chafodd ei hanghenion eu blaenoriaethu fel y dylent fod wedi. Dywedodd Ms A hefyd ei bod wedi colli allan ar fod ar y rhestr fer ar gyfer eiddo oherwydd cyfathrebu gwael a methiannau eraill gan staff Tai'r Cyngor.

## Yr hyn a ganfuom

Gwnaethom gadarnhau sawl agwedd ar gwynion Ms A am fethiannau gweinyddol y Cyngor. Canfuom hefyd dystiolaeth bod cyfathrebu'r Cyngor yn wael. Fodd bynnag, ni wnaethom gadarnhau cwyn Ms A bod Polisi Dyrannu'r Cyngor yn wahaniaethol.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Nid oedd yn anghyfreithlon i gyngor osod cysylltiad lleol fel rheswm i roi blaenoriaeth i ymgeisydd. Nid yw 'cysylltiad lleol' yn nodwedd warchoddedig o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Dywedodd Ms A a Mr B y cawsant eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd iechyd meddwl Mr B a bod oedi cyn dyrannu eiddo iddyn nhw. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon o'r dystiolaeth bod cyflyrau meddygol Mr B wedi'u cydnabod a bod y rhain wedi'u hadlewyrchu'n briodol yn eu cais am dŷ.

## Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom nifer o argymhellion i'r Cyngor ynghylch ei brosesau gweinyddol a chyfathrebu.

**202004278**

Cymdeithas Dai Wales & West  
Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd



**Tai**

Cwynodd Mr Y na ymchwiliodd y Gymdeithas yn briodol i'w gwynion am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn erbyn ei gymydog, sef tenant arall i'r Gymdeithasol.

Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn golygu ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi neu'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un aelwyd â'r cyflawnwr.



## Yr hyn a ganfuom

Canfuom ddiffygion yn y ffordd yr ymdriniodd y Gymdeithas â chwynion Mr Y am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyfathrebodd y Gymdeithas yn wael ac ni roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Mr Y am y camau yr oedd yn eu cymryd mewn ymateb i'w gwynion. Roedd y diffygion hyn yn groes i ofynion ei Bolisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Canfuom hefyd nad oedd gan y Gymdeithas Weithdrefn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a oedd yn esbonio sut y byddai'n ymdrin ag achosion tebyg. Roedd hynny'n groes i ofynion deddfwriaethol ac yn achosi anghyfiawnder i Mr Y gan nad oedd gweithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol i swyddogion ei dilyn wrth ymdrin â'i gŵyn.

Canfuom hefyd, er bod Mr Y wedi rhoi gwybod i'r Gymdeithas fod ganddo rai problemau iechyd meddwl, ni ddiweddarodd y Gymdeithas ei gofnodion na gofyn iddo beth oedd ei anghenion, ac a oedd angen addasiadau rhesymol arno. Roedd y diffygion hyn yn gyfystyr â chamweinyddu a achosodd anghyfiawnder i Mr Y.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

O dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**, mae'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Gall hyn olygu newid polisiau a gweithdrefnau neu ddarparu hyfforddiant staff i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Roedd y dyletswyddau hyn yn berthnasol yn yr achos hwn oherwydd rhoddodd Mr Y wybod i'r Gymdeithas am ei broblemau iechyd meddwl ac am yr effaith yr oedd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cael arno.

## Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac ychydig o iawndal ariannol, cytunodd y Gymdeithas i baratoi a chyhoeddi gweithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cytunodd hefyd y byddai'r weithdrefn honno'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol.

Yn ogystal, cytunodd y Gymdeithas i adolygu ei Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cytunodd hefyd i drefnu hyfforddiant ar y gofynion hynny a'r polisi a'r weithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer ei staff.

# Adroddiadau er budd y cyhoedd

**202006310**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ("y Bwrdd Iechyd Cyntaf") a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ("yr ail Fwrdd Iechyd")



Adroddiad budd y cyhoedd

Cwynodd Miss C am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i'w chefnider Ms F, gan y Bwrdd Iechyd Cyntaf a'r Ail Fwrdd Iechyd.

Roedd Miss C yn pryderu bod y Byrddau Iechyd wedi colli cyfleoedd i adnabod a thrin llid y pendics Ms F, a achosodd ei phendics rhwygedig.

## Yr hyn a ganfuom

Ni wnaethom gadarnhau'r gŵyn yn erbyn yr ail Fwrdd Iechyd, oherwydd penderfynom ei bod yn annhebygol y bu Ms F yn dioddef o lid y pendics yn ystod ei hamser o dan ei ofal.

Fodd bynnag, penderfynom fod y Bwrdd Iechyd Cyntaf wedi methu ag amau llid y pendics Ms F a'i derbyn i'r ysbyty ar ddau achlysur. Methodd hefyd â rhagnodi gwrthfotigau a threfnu ymchwiliadau addas ac amserol.

Ar ôl cael ei harchwilio am y tro cyntaf, cafodd Ms F ei hanfon adref, a dywedwyd wrthi ddychwelyd am ymchwiliadau pellach. Pan ddychwelodd i gael ei harchwilio eto, roedd sgan yn diystyru cerrig bustl fel diagnosis posibl. Serch hynny, ni chafodd Ms F ei derbyn i'r ysbyty i'w harchwilio ymhellach.

Ni ddychwelodd Ms F am adolygiad pellach, a bu farw yn ei chartref.

Yn ôl pwysau tebygolrwydd, penderfynom pe bai'r Bwrdd Iechyd cyntaf wedi darparu gofal priodol, y byddai wedi adnabod a thrin llid y pendics Ms F, a byddai ei marwolaeth wedi'i hosgoi.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Nid wnawn y darganfyddiad o farwolaeth osgoadwy yn ysgafn. Ar ben hynny, mae'n debygol y byddai dyddiau olaf Ms F gartref wedi cael eu difetha'n ddifrifol gan y boen a'r dioddefaint a achoswyd gan ei llid y pendics a'r haint nad oedd wedi'u diagnosis. Mae'n rhaid bod darganfod ei chorff yng nghartref y teulu wedi bod yn hynod drawmatig i'w theulu.

Penderfynom y gallai amgylchiadau'r gŵyn hon fod wedi ymgysylltu â hawliau **Erthygl 8** Ms F a'i theulu i barchu eu bywyd preifat a theuluol.

## Yr hyn a argymhellom

Argymhellom fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro'n llwyr i deulu Ms F am ei fethiannau. Argymhellom hefyd ei fod yn cynorthwyo'r teulu i dderbyn iawndal ariannol gan y Bwrdd Iechyd.

Yn olaf, argymhellom fod ein hadroddiad yn cael ei rannu â staff perthnasol ar gyfer dysgu ehangach a bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei arferion a'i weithdrefnau yn yr Uned Triniaethau Dydd mewn Argyfwng a lleoliadau triniaethau dydd.

## 20200661 a 202001667

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
a Chyngor Sir Ddinbych  
Adroddiad budd y cyhoedd



**Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol**

Cwynodd Mr D am ofal ei ddiweddar fam (Mrs M) mewn 2 ysbyty.

Cafodd Mrs M lawdriniaeth ar y coluddyn (i gychwyn delio â thiwmor canser). Yna, bu'n dioddef o gyfog parhaus, poen yn yr abdomen, problemau gastrig, a cholodd bwysau o ganlyniad. Dywedodd Mr D y bu clinigwyr yn siarad dro ar ôl tro am 'anorecsia', gan wneud i Mrs M deimlo mai ei bai hi oedd hynny a bod angen iddi geisio bwyta mwy ac eto, pan wnaeth hynny, gwaethygodd ei phoen. Erbyn i broblemau Mrs M gael diagnosis cywir, aseswyd ei bod yn rhy fregus (yn rhannol am ei bod wedi colli llawer o bwysau) i gael llawdriniaeth. Bu farw Mrs D y diwrnod canlynol.

Cwynodd Mr D hefyd na chynigiodd y Cyngor gefnogaeth gofal cartref digonol i Mrs M pan gafodd ei rhyddhau gyntaf, a dywedodd fod hyn wedi effeithio ar ei hurddas. Dywedodd Mr D fod y Cyngor wedi asesu bod Mrs M yn gallu dringo'r grisiau i fynd i'r toiled – er nad oedd yn gallu gwneud hynny. O ganlyniad, bu'n rhaid i Mrs M ddefnyddio comôd i fynd lawr y grisiau. Dywedodd Mr D fod hyn wedi achosi gofid i Mrs M. Dywedodd nad oedd y gwasanaeth gofal cartref wedi gallu diwallu anghenion Mrs M a bod bwlch o 3 diwrnod wedi bod yn ei ddarpariaeth. Oherwydd diffyg yn y gwasanaeth hwn, cafodd Mrs M ei haillderbyn i'r ysbyty.

### **Yr hyn a ganfuom**

Canfuom na sylwodd clinigwyr fod Mrs M wedi datblygu coluddyn isgemig (cyflwr sy'n deillio o ostyngiad yn y cyflenwad gwaed i'r coluddion). Ni wnaethant ychwaith nodi arwyddion clinigol eraill ar gyfer ei chyfog a'r ffaith iddi golli llawer o bwysau.

Ni allem fod yn sicr y bu modd atal marwolaeth Mrs M. Fodd bynnag, penderfynom, oherwydd y methiannau yng ngofal Mrs M, fod y Bwrdd Iechyd wedi colli cyfle i ystyried llawdriniaeth cyn i Mrs M fynd yn rhy glinigol sâl i'w chael.

Gwnaethom hefyd gadarnhau cwyn Mr D am becyn rhyddhau a phe cyn gofal cartref Mrs M, gan gynnwys ynghylch asesiad symudedd Mrs M.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Gyda'i gilydd (yn ogystal ag yn unigol), effeithiodd y methiannau hyn ar **hawliau dynol** Mrs M **o ran urddas ac ansawdd bywyd**. Roedd effaith hefyd ar **hawliau'r teulu** ehangach gan y buont yn dyst i'w dirywiad gwanychol.

Rydym bob amser yn ymwybodol na allwn ddod i'r casgliad y bu achos o dorri hawliau dynol rhywun. Fodd bynnag, roedd y digwyddiadau difrifol yma'n golygu bod yn rhaid i ni gwestiynu a roddwyd ystyriaeth briodol i hawliau dynol Mrs M yn yr achos hwn.

## Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom sawl argymhelliad. Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawndal ariannol, argymhellom fod y clinigwyr perthnasol yn myfyrio ar ein hadroddiad ac yn cael hyfforddiant perthnasol.

Argymhellom hefyd fod ein hadroddiad yn cael ei rannu â Swyddogion Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor, i hyrwyddo hyfforddiant i staff perthnasol a fu'n ymwneud â gofal Mrs M ar egwyddorion hawliau dynol wrth ddarparu gofal a gwasanaethau.



**202005937**

Cyngor Caerdydd

Adroddiad budd y cyhoedd



**Casglu  
Gwastraff**

Mae Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff yn rhoi cymorth i breswylwyr nad ydynt yn gallu gyflwyno gwastraff i'w gasglu eu hunain oherwydd anabledd, rhai cyflyrau meddygol neu feichiogrwydd.



Mae Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ("EIA") yn ffordd o ystyried dyletswyddau cydraddoldeb wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff i Mrs D, Mrs F a Miss P gan fod y preswylwyr hyn yn anabl ac ni allent gyflwyno gwastraff i'w gasglu eu hunain. Fodd bynnag, cynodd pob un ohonyn nhw fod Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff Cyngor Caerdydd wedi methu yn gyson â diwallu eu hanghenion fel preswylwyr sy'n agored i niwed. Cwynon nhw hefyd na ymatebodd y Cyngor yn ddigonol i'w hadroddiadau a'u cwynion am broblemau â'r Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff.

## Yr hyn a ganfuom

Canfuom na ddarparodd y Cyngor Wasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff dibynadwy i'r preswylwyr, a bod casgliadau gwastraff yn cael eu methu dro ar ôl tro dros amser hir. Roedd hyn yn gyfystyr â methiant gwasanaeth difrifol oherwydd gwrthodwyd mynediad dibynadwy at wasanaeth hanfodol a ddylai fod ar gael i bawb i rai o breswylwyr mwyaf agored i niwed y Cyngor. Ni ddylai'r preswylwyr, yr oedd 2 ohonyn nhw yn eu 90au, fod wedi gorfod dioddef cymaint o anghyfleustra am gyfnod mor hir.

Hefyd, gwnaethom ddatgan ein barn y gallai gweithredoedd y Cyngor, trwy ddarparu'r Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff mor anghyson i'w breswylwyr anabl, fod wedi ymgysylltu â hawliau'r achwynwyr i addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ogystal, canfuom nad oedd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor yn asesu effaith y polisi Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff yn ddigonol. Roedd

hynny oherwydd nad oedd yr asesiad yn ystyried tystiolaeth weithredol berthnasol nac yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau anabl neu feichiog, na'u heiriolwyr fel sy'n ofynnol gan ddyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru.

Gwnaethom gadarnhau hefyd gwynion am y ffordd yr ymdriniodd y Cyngor â chwynion. Er gwaethaf derbyn cwynion ffurfiol dro ar ôl tro a channoedd o alwadau gan yr achwynwyr, methodd y Cyngor â chydabod na gweithredu ar eu pryderon yn briodol a bu cyfathrebu gwael â nhw. Canfuom fod hyn wedi achosi trallod osgoadwy i'r achwynwyr dros gyfnod hir, a oedd yn gyfystyr â chryn anghyfiawnder.

Canfuom broblemau systematig â'r Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff ac roeddem yn bryderus iawn nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r problemau hynny ac y gallai preswylwyr eraill sy'n agored i niwed gael eu heffeithio hefyd.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Canfuom y gallai'r achos hwn fod wedi ymgysylltu â dyletswyddau hawliau dynol a chydraddoldeb. Roedd y ffordd y darparodd y Cyngor y Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff (a'u methiant i fynd i'r afael â'r problemau ag ef) yn golygu bod yn rhaid i'r preswylwyr ddioddef gwastraff yn cronni, gan godi pryderon ynghylch iechyd a diogelwch ac effeithio ar eu mwynhad o'u cartrefi. Gallai hyn fod wedi ymgysylltu ag **Erthygl 8**. Roedd yn debygol bod **Erthygl 14** wedi'i hymgysylltu hefyd, o ystyried effaith y methiannau gwasanaeth ar y preswylwyr anabl.

Yn olaf, yn yr achos hwn ni chafodd y ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol i bobl anabl ei pherfformio fel y dylai, ac ni chafodd yr effaith ar wahanol grwpiau cydraddoldeb ymhlith y preswylwyr ei fesur fel y dylai fod ychwaith.

## Yr hyn a argymhellom

Argymhellom y dylai'r Cyngor gymryd sawl cam gweithredu i unioni'r anghyfiawnderau a brofodd yr achwynwyr, gwella'r Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff ar unwaith er budd yr holl breswylwyr a'i defnyddiodd, a dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Cytunodd y Cyngor i ddiweddarau ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unwaith, i ystyried sut gallai leihau'r angen i achwynwyr roi gwybod am broblemau a'i gwneud yn haws iddyn nhw gwyno a siarad â goruchwyliwr yn brydlon. Cytunodd hefyd y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb diweddaedig gynnwys cynlluniau ar gyfer adolygiad parhaus o berfformiad y Gwasanaeth Cymorth Casglu Gwastraff, gan ystyried adborth o adroddiadau a chwynion y preswylwyr.

# Datrysiad Cynnar

**202201561**

Practis Meddyg Teulu

yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Datrysiad Cynnar



**COVID-19**

Mae Mr A yn awtistig a chwynodd fod ei Bractis Meddyg Teulu wedi mynnu ei fod yn gwisgo gorchudd wyneb (masg) cyn iddo gael ei weld. Roedd hynny er gwaethaf i Mr A ddweud ei fod wedi'i eithrio rhag gwisgo masg am ei fod yn awtistig. Dywedodd Mr A fod hyn wedi achosi pryder a gofid iddo ac wedi golygu na chafodd ei feddyginiaeth.

Pan gwynodd Mr A i'r practis Meddyg Teulu, dywedodd y Practis wrtho nad oedd eithriadau masg yn berthnasol i eiddo Meddygon Teulu gan eu bod yn "osodiadau gofal iechyd risg uchel". Dywedodd y byddai'n caniatáu i bobl ag "anffurfiad wynebol sydd ddim yn gallu gwisgo masgiau" (nid oedd hyn yn berthnasol i Mr A).

## Yr hyn a ganfuom

Cadarnhaodd cofnodion Mr A ei fod wedi derbyn ei feddyginiaeth. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oedd dull y practis Meddyg Teulu yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru.

Roedd gwisgo gorchuddion wyneb mewn lleoliadau gofal iechyd yn dal yn orfodol yng Nghymru ar adeg y digwyddiadau y cwynwyd amdany'n nhw. Fodd bynnag, roedd canllawiau a gyhoeddwyd i bractisau Meddygon Teulu yn nodi y gallai eithriadau masg fod yn berthnasol mewn lleoliadau gofal iechyd - boed am reswm iechyd meddwl neu gorfforol.



## Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio

Roedd yn ymddangos bod y practis Meddyg Teulu yn gweithredu'n groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar eithriadau masg. Roedd yn ymddangos fel pe bai'n defnyddio dull cyfyngol heb ystyried y canllawiau na **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Daw awtistiaeth o dan y Ddeddf honno, ac felly roedd gan Mr A esgus rhesymol os oedd yn teimlo na allai wisgo masg.

## Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom ddatrys yr achos yn gynnar, heb fod angen ymchwilio'n ffurfiol. Cytunodd y practis Meddyg Teulu i ymddiheuro i Mr A am beidio â chydabod ei fod wedi'i eithrio ac am y trallod a achoswyd gan hyn.

Cytunodd hefyd i atgoffa ei holl staff am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar eithriadau - gan gynnwys y gallai pobl awtistig, ac eraill nad yw eu cyflwr yn weladwy, gael eu heithrio o hyd.

**202202881**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Datrysiaid Cynnar



## **Gofal Cymdeithasol ar gyfer Oedolion**

Cwynodd Ms C fod y Cyngor wedi gwrthod dweud wrthi am iechyd a lleoliad ei diweddar bartner, Mr D ac na roddodd wybod iddi am ei farwolaeth am rai misoedd ar ôl iddo farw. Cwynodd hefyd na trefnodd y Cyngor ar gyfer gweinyddu ei ystâd, gan ei gadael i roi sylw i faterion.

### **Yr hyn a ganfuom**

Canfuom nad oedd yn afresymol yn yr achos hwn i'r Cyngor atal gwybodaeth am Mr D rhag Ms C yn yr wythnosau cyn ei farwolaeth. Fodd bynnag, ar ôl i Mr D farw, dangosodd y Cyngor ddiffyg brys wrth sefydlu y gallai gwybodaeth am ei farwolaeth gael ei throsglwyddo i Ms C. Arweiniodd hyn at oedi o 5 mis cyn dweud wrth Ms C fod Mr D wedi marw, a oedd yn debygol o fod wedi achosi trallod ychwanegol y gellid ei osgoi.

Roeddem hefyd yn bryderus y dylai'r Cyngor fod wedi rhoi cyngor a chymorth priodol i Ms C mewn perthynas â setlo ystâd Mr D yn dilyn ei farwolaeth, i'r graddau yr effeithiodd hynny arni. Gan na wnaeth hynny, gadawyd Ms C i ddatrys materion ar ei phen ei hun heb gymorth, gan achosi amser a thrafferth osgoadwy iddi.



### **Yr hyn a ddywedodd ein Swyddog Ymchwilio**

Gallai dymuniad Ms C i gael gwybodaeth am ei phartner fod wedi ymgysylltu â'i hawl i fywyd preifat a theuluol o dan **Erthygl 8**. Yn yr achos hwn, penderfynom nad oedd yn afresymol i'r Cyngor atal gwybodaeth cyn marwolaeth Mr D. Fodd bynnag, gallai'r diffyg brys i ddarganfod a ellid dweud wrth Ms C am farwolaeth ei phartner fod wedi ymgysylltu ag Erthygl 8.

### **Yr hyn a argymhellom**


Gwnaethom ddatrys y gŵyn hon yn gynnar, heb orfod ymchwilio'n ffurfiol. Yn ogystal ag ymddiheuriad a chynnig iawndal ariannol, cytunodd y Cyngor i gysylltu â Ms C i gynnig cymorth a chynghor priodol iddi gydag unrhyw bryderon parhaus ynglŷn ag ystâd Mr D.

## Atodiad: Rhai erthyglau'r ECHR



### Erthygl 2 - Yr hawl i fywyd – **hawl ddiamod**

Mae hyn yn cynnwys diogelu bywyd gan awdurdodau cyhoeddus. Gall Erthygl 2 fod yn berthnasol i'w hystyried lle mae honiad ynghylch marwolaeth yr oedd modd ei hosgoi, darparu triniaeth achub bywyd neu oedi wrth roi triniaeth. Mae'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol (i wneud rhywbeth) neu negyddol (i beidio â gwneud rhywbeth) ar gyrff cyhoeddus.



### Erthygl 3 - Yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol - **hawl ddiamod**

Y diffiniad o artaith yw peri poen neu ddioddefaint difrifol i rywun yn fwriadol. Mae triniaeth annynol yn achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol, felly gellid ei hystyried yn greulon neu'n farbaraidd ond nid oes rhaid iddi fod yn fwriadol. Mae triniaeth ddiraddiol yn ddarostyngol neu'n ddiurddas iawn ac, unwaith eto, nid oes rhaid iddi fod yn fwriadol. Er mwyn bodloni prawf Erthygl 3, mae'n debygol y byddai angen i'r driniaeth barhau am oriau a gall gynnwys esgeuluso dyletswyddau, defnyddio ataliaeth, a thriniaeth sy'n groes i ddymuniadau'r unigolyn. Mae llysoedd wedi gosod trothwy uchel ar gyfer Erthygl 3, ond yn aml gellir edrych ar ystyriaethau o'r fath o safbwynt Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol) gan fod yr effaith ar yr unigolyn yn hanfodol.



### Erthygl 5 - Yr hawl i ryddid a diogelwch - **hawl gyfyngedig**

Gall yr hawl hon fod yn gymwys lle mae rhywun wedi'i gadw mewn rhyw ffordd – h.y. lle nad yw'n rhydd i ymadael. Rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun ac i'r gyfraith – e.e. gellir amddifadu rhywun o'i ryddid yn gyfreithlon yn dilyn euogfarn a dyfarniad gan y llysoedd. Mewn lleoliadau iechyd meddwl neu gartref gofal byddem yn ystyried y gweithdrefnau diogelu a oedd wedi'u dilyn cyn cadw'r unigolyn – fel y drefn briodol o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.



### Erthygl 6 - Yr hawl i gael gwrandawriad teg - **hawl ddiamod**

Mae'r hawl i gael treial teg yn ymwneud â phenderfyniadau am hawliau sifil neu wrth ddelio â chyhuddiad o droseddu. Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn cwrdd â'r gofyniad hwn hefyd yn eu prosesau trafod cwynion o ran sicrhau bod gweithdrefnau'n deg. A yw'r awdurdod cyhoeddus wedi darparu penderfyniad rhesymedig, fel y bydd rhywun yn gwybod beth yw'r sail i'r penderfyniad er mwyn penderfynu a fydd yn ei herio ymhellach (drwy broses

apelio o ryw fath)? A yw cyfansoddiad y corff/panel penderfynu yn sicrhau tegwch a didueddrwydd? Gellir cyfyngu'r hawl i gael treial cyhoeddus os oes angen cau'r cyhoedd allan er mwyn diogelu buddiannau penodol a/neu os oes hawl i fynd ymlaen i lys neu dribiwnlys sy'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.



Erthygl 8 - Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, y cartref a gohebiaeth - **hawl amodol**

Mae cysylltiad cryf rhwng yr erthygl hon ac egwyddorion parch, urddas ac ymreolaeth sydd ymhlith y gwerthoedd hanfodol sy'n sail i hawliau dynol. Gall gwmpasu materion sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol/rhywedd, yr hawl i weld gwybodaeth sy'n cael ei dal am berson neu'r hawl i fyw'n annibynnol a gwneud dewisiadau. Mae hawl i rywun fwynhau ei gartref heb fod swm neu lygredd yn effeithio arno a hawl i fwynhau byw fel teulu, os oes modd. Gall orgyffwrdd i raddau helaeth â'r hawliau a ddisgrifiwyd yn Erthygl 3 sy'n ymwneud ag urddas.



Erthygl 9 - Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd - **hawl ddiamod (a chyfyngedig)**

Er bod yr hawl i arddel cred grefyddol yn un ddiamod, ceir achosion lle y gellir ymyrryd â'r hawl i amlygu'r gred honno, felly mae'r agwedd honno'n hawl gyfyngedig – e.e. byddai disgybl sy'n dymuno gwisgo rhyw fath o wisg ffydd draddodiadol yn amlygu ei grefydd. Fodd bynnag, os yw'r ysgol wedi mabwysiadu cod caeth ar wisg ysgol, yna gallai fynnu bod y disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol (gan ymyrryd â'r amlygu ar ei grefydd). Er hynny, gall barhau i arddel ei gredoau crefyddol. Mae hawl i gael addysgu plant yn unol â chredoau crefyddol, er nad oes dyletswydd ar awdurdodau i ddarparu ysgolion crefyddol ar wahân yn ôl y galw. Dylai cyrff gofal iechyd ddiogelu hawl yr unigolyn i amlygu credoau crefyddol os yw hynny'n ymarferol wrth gwrdd â'r holl ofynion.



Erthygl 10 - Yr hawl i ryddid mynegiant - **hawl amodol**

Mae gan bawb hawl i arddel barn a mynegi safbwynt hyd yn oed os byddant yn amhoblogaidd mewn rhai achosion. Gall fod yn angenrheidiol ymyrryd â hyn er mwyn diogelwch y cyhoedd, neu i atal datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol.



Erthygl 14 - Gwahardd gwahaniaethu - **ar y cyd â hawliau eraill yn unig**

Mae cysylltiad cryf rhwng yr hawl hon a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Nid yw'r hawl hon yn un annibynnol felly ni ellir ei defnyddio heblaw mewn cysylltiad ag un arall o'r Erthyglau eraill ar hawliau dynol.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**1 Ffordd yr Hen Gae**

**Pencoed**

**CF35 5LJ**

**Ffôn: 0300 790 0203**

**Facs: 01656 641199**

**Ebost: [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)**

**Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)**